Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe, SA4 6AU
Ffôn/Tel: 01792 894210
E-bost/E-mail: yggpontybrenin@pontybrenin.swansea.sch.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar/Twitter: @PontybreninYGG

# Grwpiau Ffocws Rhieni 2024-25

Crynodeb o'r materion a godwyd gan aelodau Grwpiau Ffocws Rhieni – Tymor y Gwanwyn 2025

**Dyddiad cyfarfod yr Ysgol Uwch** – 08/04/25

Rhieni oedd yn Bresennol: Miss Danielle Clayfield a Mrs Ceri Metcalfe-Day

Staff oedd yn Bresennol: Mrs Griffiths, Mrs D Williams, Mrs Owen a Mr Scourfield

1. A oes yna gynlluniau i gynnal Noson Rhieni ar gyfer rhieni'r disgyblion Meithrin?

   Ymateb: Mae'r cyswllt dyddiol y mae'r rhan fwyaf o rieni Meithrin yn ei gael â'r staff yn caniatáu i ddeialog reolaidd, agored a gonest ddigwydd rhwng yr ysgol a'r cartref. Yn ystod tymor yr haf eleni bydd rhieni plant sy'n cyrraedd tair oed yn cwrdd yn ffurfiol â'r staff i drafod cynnydd eu plentyn, ac am y tro cyntaf o fis Medi, bydd rhieni pob disgybl Meithrin yn cael eu gwahodd i'r ysgol i Noson Rhieni i drafod 'asesiad eu plentyn wrth gael ei dderbyn'.

2. A ellir rhannu dyddiadau'r mabolgampau â rhieni cyn gynted â phosibl gan fod angen digon o rybudd ymlaen llaw ar lawer o rieni, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio shifftiau?

   Ymateb: Bydd dyddiadau'r mabolgampau yn cael eu rhannu â rhieni yn y trosolwg tymhorol a fydd yn cael ei anfon yn ystod yr wythnos gyntaf ar ôl y Pasg. Bydd hyn yn rhoi tua chwe wythnos o rybudd i rieni.

3. A yw rhieni disgyblion Meithrin mewn perygl o gael dirwy os ydynt yn mynd â'u plant ar wyliau yn ystod y tymor?

   Ymateb: Er bod presenoldeb yn orfodol i ddisgyblion 5 i 16 oed, a gall ysgolion roi Hysbysiadau Cosb Benodedig i rieni disgyblion sy'n absennol yn rheolaidd ac heb awdurdod, nid yw disgyblion Meithrin yn ddarostyngedig i'r rheolau hyn. Fodd bynnag, mae presenoldeb rheolaidd yn y dosbarth Meithrin yn bwysig ar gyfer datblygiad plentyn, yn enwedig o ran y Gymraeg, ac mae'r ysgol yn annog rhieni i gymryd eu gwyliau y tu allan i dymor yr ysgol os yw hynny'n bosibl.

4. Faint o amser sydd gan ddisgyblion Blwyddyn 1 i fwyta eu ffrwythau a pham na all disgyblion fwyta bariau grawnfwyd yn ystod amser byrbrydau?

Ymateb: Yn dilyn newidiadau i strwythur y diwrnod yn yr Ysgol Iau, mae gan bob disgybl, gan gynnwys y rhai ym Mlwyddyn 1, y rhyddid i fwyta eu ffrwythau ac yfed eu llaeth neu ddŵr ar unrhyw adeg. Anogir y disgyblion i fwyta ffrwythau yn hytrach na bariau grawnfwyd gan fod y rhain yn aml yn cynnwys cnau (oherwydd bod gan rai disgyblion alergeddau, rydym yn ysgol ddi-gnau) a siwgr. Rydym yn 'Ysgol Iach' swyddogol ac er bod y plant yn cael eu haddysgu bod mwynhau danteithion melys o bryd i'w gilydd yn iawn, gellir bwyta deiet iach a chytbwys trwy gyfnewid byrbrydau siwgrog am ffrwythau a llysiau.
*Gwnewch yn siŵr bod grawnwin wedi'u torri yn eu hanner os gwelwch yn dda.

5. A yw'n bosibl trefnu nosweithiau rhieni penodol ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol gan fod y nosweithiau rhieni arferol yn aml yn rhy fyr i drafod popeth?

   Ymateb: Mae'r ysgol yn falch o'i pholisi drws agored ac mae croeso i rieni pob disgybl, boed yn blentyn ag ADY neu'n blentyn sy'n rhan o boblogaeth gyffredinol yr ysgol, drefnu apwyntiad i siarad ag athro/athrawes dosbarth eu plentyn ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. Gallai hyn fod i drafod eu cynnydd, materion yn ymwneud ag ymddygiad, ac ati.

**Dyddiad cyfarfod yr Ysgol Uwch** – 09/04/25

Rhieni oedd yn Bresennol: Mrs Abi Hobson

Ymddiheuriadau: Mrs Meryl Probert a Mrs Helen Gibbons

Staff oedd yn Bresennol: Mr Scozzi, Mrs Sartori a Mr Scourfield

1. A ellir diweddaru tudalennau'r dosbarthiadau ar wefan yr ysgol yn rheolaidd i ddangos beth y mae'r plant yn ei wneud?

   Ymateb: Mae yna wahaniaeth amlwg ar wefan yr ysgol, lle mae tudalennau rhai o'r dosbarthiadau yn cynnwys llawer o luniau ac enghreifftiau o waith diweddar y disgyblion, ac eraill yn cynnwys llawer llai. Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau cysondeb o ran yr hyn a rennir ar y wefan a bod pob dosbarth yn diweddaru tudalen y dosbarth yn rheolaidd.

2. A ellir trefnu cyngherddau Nadolig eleni i osgoi dyddiau Gwener ym mis Rhagfyr?

   Ymateb: Er fy mod yn sylweddoli na fyddai neb yn dewis cynnal cyngerdd

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe, SA4 6AU
Ffôn/Tel: 01792 894210
E-bost/E-mail: yggpontybrenin@pontybrenin.swansea.sch.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar/Twitter: @PontybreninYGG

Nadolig ar ddydd Gwener (gan gynnwys y staff), rydym yn cael ein rheoli i ryw raddau gan argaeledd cyfyngedig y lleoliadau y cynhelir y cyngherddau ynddynt. Rwy'n falch o ddweud ein bod wedi llwyddo i sicrhau Neuadd Les Casllwchwr ar gyfer holl gyngherddau eleni, ond Dydd Gwener, Rhagfyr 12fed yw un o'r dyddiadau y bu'n rhaid i ni gytuno arno. Fodd bynnag, gyda dau gyngerdd ar gyfer pob grŵp blwyddyn, gobeithio y gall pawb sydd am fynd i gyngerdd eu plant/hwyrion wneud hynny.

3. A fydd unrhyw gyfleoedd i ddisgyblion Blwyddyn 3 gymryd rhan mewn gweithgareddau rygbi neu griced eleni?

   Ymateb: Wrth i'r tywydd wella a'r cae chwarae sychu, bydd disgyblion yr Ysgol Hŷn yn cymryd rhan mewn mwy o gemau megis criced a rownderi yn ystod tymor yr haf. Fodd bynnag, mae mwyafrif helaeth y gwyliau a'r twrnameintiau chwaraeon yn targedu disgyblion Blynyddoedd 5 a 6, a hyd yn oed pan fydd gennym gyfle i ymuno â gweithgaredd Blynyddoedd 3 a 4, mae'r nifer aruthrol o ddisgyblion yn y grwpiau blwyddyn hyn (131 o blant) yn golygu bod Blwyddyn 3 yn colli'r cyfle. Wedi dweud hynny, rydym yn bwriadu trefnu gemau cyfeillgar gyda'n cymdogion yn Pontybrenin Primary yn ystod y misoedd nesaf a fydd yn darparu cystadlaethau i'r disgyblion hyn.

4. Er bod llawer o wisgoedd ysgol heb dagiau/labeli enw arnynt, mae hyd yn oed yr eitemau hynny sydd wedi'u labelu yn mynd ar goll ac nid ydynt yn cael eu dychwelyd i'r disgyblion. A ellir gwneud unrhyw beth i ddatrys y broblem hon?

   Ymateb: Mae gan yr ysgol wyth disgybl Blwyddyn 6 yn y 'Gang Gwisg Ysgol' sydd â'r rôl o ddychwelyd yr holl eitemau coll i'w perchnogion. Pan nad oes gan y dilledyn dag enw na label, caiff ei hongian ar gambren a'i rhoi ar reilen ddillad y tu allan i'r gât o flaen yr ysgol ar ddiwedd pob diwrnod (yn dibynnu ar y tywydd). Anogir rhieni i gymryd yr eitemau hyn, yn rhad ac am ddim, gan fod gennym fynydd o wisgoedd ysgol heb eu hawlio ar ddiwedd y flwyddyn ysgol y mae'n rhaid eu rhoi mewn bagiau a'u rhoi i'r banc dillad. Er na allwn warantu na fydd dillad yn mynd ar goll, gall rhieni leihau'r siawns y bydd hyn yn digwydd trwy ysgrifennu enw eu plentyn ar bopeth.

5. Mae'r gât i gerddwyr ar waelod y cylch troi (nid y gât i iard yr ysgol) ynghau yn y prynhawn, ac er bod gyrwyr bysiau yn agor y gatiau cerbydau sy'n fwy, nid ydynt yn agor y gât i gerddwyr. A ellir datrys hyn?

   Ymateb: Er bod y gât i gerddwyr ynghau yn ystod y dydd, dim ond dros nos y mae ar glo. Gellir ei hagor a'i chau dim ond trwy dynnu barilfollt sbring-lwythog. Gall rhieni a mam-guod a thad-cuod sy'n cyrraedd ar ddiwedd y diwrnod ysgol i gasglu plant agor y gât yn ôl yr angen.

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe, SA4 6AU
Ffôn/Tel: 01792 894210
E-bost/E-mail: yggpontybrenin@pontybrenin.swansea.sch.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar/Twitter: @PontybreninYGG

6. Mae nifer o ddisgyblion Blwyddyn 6 wedi mynegi eu hanfodlonrwydd fod rhai o'u cyfoedion yn rhedeg i mewn o'r iard, a nhw, bob amser, sydd ar flaen y ciw i gael cinio. A ellir atal hyn, a rhoi system decach ar waith?

   Ymateb: Yn dilyn adborth o Grŵp Ffocws Rhieni Tymor yr Hydref, mae gan ddisgyblion yr Ysgol Uwch amserlen sy'n nodi pa grwpiau blwyddyn sy'n mynd gyntaf, yn ail, ac ati, ond hefyd rota sy'n nodi pa ddosbarthiadau yn y grwpiau blwyddyn hyn sy'n sefyll mewn rhes gyntaf, yn ail, ac yn drydydd i gael cinio. Byddai mynd â'r mater ymhellach i lefel unigol yn cymryd llawer gormod o amser, o gofio bod bron 300 o ddisgyblion yn bwyta cinio mewn ychydig dros awr.

Diolch i bawb a gyfrannodd sylwadau at y Fforymau Rhieni hyn. Byddwn yn gwneud ein gorau glas i fynd i'r afael â'r pryderon yr ydych wedi'u mynegi, a gobeithio y byddwch yn sylwi ar welliannau yn y meysydd hyn yn fuan. Os, fodd bynnag, y bydd eich pryderon yn parhau neu os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach i'w gwneud, yna mae croeso i chi gysylltu â mi yn yr ysgol i'w trafod.

Diolch i chi unwaith yn rhagor am eich cefnogaeth barhaus.

Yr ddiffuant,

Mr Ceri Scourfield
Pennaeth